



Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20

Cyngor Sir Powys

Drafft Ymgynghori

**Dyddiadau Ymgynghori:
23 Tachwedd 2016 – 25 Ionawr 2017**

Cynnwys

	Tudalen
ADRAN 1 CYFLWYNIAD	3
1.1 Gweledigaeth Cyngor Sir Powys ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg	4
1.2 Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg	5
1.3 Datganiad ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol	6
1.4 Cyd-destun polisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru	6
ADRAN 2 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG	9
Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	9
Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd	14
Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg	19
Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg	19
Deilliant 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg ar lefel uwch	22
Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	27
Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus	29
ATODIAD 1 DATA	31

ADRAN 1

CYFLWYNIAD

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013¹ yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) sy'n manylu ar sut bydd yr awdurdod lleol yn cynllunio'i ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn well. Hefyd, mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013² yn manylu ar y gofynion i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno CSGA i Weinidogion Cymru bob tair blynedd.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Powys ar gyfer 2017-2020 cyn ei anfon at Weinidogion Cymru iddyn nhw ei gymeradwyo. Ar ôl ei gyflwyno, mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn nodi y gall Gweinidogion:

- Gymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd
- Cymeradwyo'r Cynllun ag addasiadau; neu
- Wrthod y Cynllun a gofyn am baratoi un arall.

Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi'i gymeradwyo, bydd Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg y Cyngor, a fydd yn cyfarfod bob tymor, yn monitro cynnydd â'r Amcanion a amlinellir yn y Cynllun. Hefyd, caiff yr Amcanion eu monitro drwy Fframwaith Atebolrwydd y Gwasanaeth Ysgolion.

Bydd gofyn i'r Cyngor adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar gynnydd. Rhennir yr adroddiad hwn ar gynnydd â Chabinet y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae CSGA y Cyngor ar gyfer 2017-20 wedi'i alinio â Pholisi Adrefnu Ysgolion y Cyngor (2015). Bydd unrhyw gynigion i adrefnu ysgolion a fydd yn ofynnol er mwyn cyflawni amcanion y CSGA yn destun proses ffurfiol fel y'i hamlinellir yn y polisi a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013).

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents/enacted>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3048/contents/made>

1.1 Gweledigaeth Cyngor Sir Powys ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Cynnig darpariaeth sy'n gyfartal ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio strategaeth newydd uchelgeisiol yn ddiweddar i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'r cyngor yn croesawu'r strategaeth uchelgeisiol hon, ac yn cydnabod y rôl allweddol y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn ei chwarae mewn cyflawni'r nod hwn.

Mae'r awdurdod yn dyheu am ddatblygu seilwaith sy'n galluogi pob disgybl i fanteisio ar ddarpariaeth lawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg gydol eu gyrfaedd addysgol, gan sicrhau bod dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael y cyfle i lwyrymdrochi yn y Gymraeg, i sicrhau eu bod yn gwbl ddwyieithog ac yn hyderus i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg pan maent yn gadael yr ysgol.

Mae'n eglur nad yw'r dull presennol o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys yn cynnig cydraddoldeb i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg â dysgwyr cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn gwaethgu yn y cyfnod uwchradd, yn enwedig yn ystod Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Yn ne'r sir, mae Ysgol Gyfun Ystalyfera, sef ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ar gael i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn ardal Ystradgynlais, ond nid yw'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gael i ddisgyblion sy'n byw mewn rhannau eraill o Bowys.

Mae'r dull darparu presennol wedi arwain at sefyllfa lle mae gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn 'loteri cod post', lle mae math a lefel y ddarpariaeth sydd ar gael i ddisgyblion yn ystod pob cyfnod o'u haddysg yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar lle maent yn byw. Mae'r awdurdod yn cytuno'n llwyr â barn Llywodraeth Cymru bod disgyblion yn fwy tebygol o ddod yn gwbl ddwyieithog ar ôl mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig pan maent yn dod o gartrefi di-Gymraeg, ac mae'n sylweddoli bod angen newid sylfaenol ym Mhowys i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar ddarpariaeth gadarn, o ansawdd uchel o'r blynyddoedd cynnar ymlaen.³

Mae niferoedd y disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys wedi aros yn eithaf disymud dros y blynyddoedd diweddar – yn wir, dros gyfnod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg blaenorol yr awdurdod (2014-17), cafwyd gostyngiad yng nghanran y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen newidiadau sylweddol i'r modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir er mwyn annog hyder yn y system a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg gydol eu gyrfaedd addysgol. Fe fydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau bod darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ar gael.

³ Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?skip=1&lang=cy>

Cydnabyddir mai gweledigaeth hirdymor yw hon, ac na fydd yn bosibl newid popeth o fewn cyfnod y CSGA hwn. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi ymrwmo'n llwyr i'r weledigaeth hirdymor i gynnig darpariaeth sy'n gyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, er mwyn cynnig y cyfleoedd gorau posibl i'n plant a'n pobl ifanc, ac i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg.

Amcanion ar gyfer 2017-20

Mae prif Amcanion Strategol y Cyngor yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn fel a ganlyn:

- | | |
|----------------|---|
| Amcan 1 | Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg |
| Amcan 2 | Sefydlu, a nodi cyfleoedd i sefydlu, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddynodedig newydd yn y sector cynradd |
| Amcan 3 | Darparu dilyniant ieithyddol tecach a mwy cynaliadwy ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg o Gyfnod Allweddol 2 yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5 |
| Amcan 4 | Darparu gwell cyfleoedd i hwyrddyfodiaid drosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod addysg |

1.2 Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg

Fe fydd y cyngor yn hwyluso cyfarfodydd y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg, a fydd yn cyfarfod bob tymor.

Prif rôl y Fforwm fydd monitro cynnydd o ran yr Amcanion a amlinellir yn y CSGA hwn. Caiff Cylch Gorchwyl y Fforwm ei adolygu'n flynyddol.

Caiff aelodaeth y Fforwm hefyd ei hadolygu'n flynyddol, ond disgwylir i'r aelodaeth honno gynnwys y canlynol:

- Cynghorwyr sir, gan gynnwys y Deiliad Portffolio ar gyfer Addysg
- Pennaeth Ysgolion y cyngor
- Swyddogion y cyngor y mae eu rôl yn gysylltiedig â'r deilliannau a nodir yn y CSGA
- Cynrychiolwyr ysgolion ym Mhowys
- Cynrychiolwyr sefydliadau iaith Gymraeg

1.3 Datganiad ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol

Mae Cyngor Sir Powys yn darparu cludiant i'r ysgol i'r disgyblion a ganlyn:

- disgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol neu eu canolfan ddynodedig agosaf, wedi'i fesur yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael
- disgyblion ysgol uwchradd yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol neu eu canolfan uwchradd ddynodedig agosaf, wedi'i fesur yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael
- pobl ifanc 16-19 mlwydd oed sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u safle coleg addysg bellach neu eu hysgol uwchradd ddynodedig agosaf o fewn ffiniau'r Sir sy'n cynnig darpariaeth ôl-16

Darperir cludiant i'r ysgol neu'r ganolfan agosaf sy'n cynnig darpariaeth yn eu dewis iaith – i'r disgyblion hynny sy'n dymuno manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, darperir cludiant yn rhad ac am ddim i'r ysgol neu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg agosaf at eu cartref.

Mae gan ddisgyblion cyfrwng Cymraeg cymwys sy'n byw yn ardal Ystradgynlais hawl i gludiant sy'n rhad ac am ddim i Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Cwblhawyd yr adolygiad diweddaraf o bolisi cludiant yr awdurdod ar ôl cyhoeddi Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Yn sgil yr adolygiad hwn, mae'r awdurdod wedi parhau i ddarparu cludiant sy'n rhad ac am ddim i alluogi disgyblion i fynychu'r ysgol agosaf sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bob dysgwr, fe ddiwygiwyd y polisi i gynnwys cludiant ar gyfer disgyblion i'w darpariaeth cyfrwng Saesneg agosaf, os mai ysgol cyfrwng Cymraeg yw eu hysgol agosaf. Cydnabyddir bod y newid hwn i'r polisi cludiant wedi effeithio ar nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd Cymraeg traddodiadol.

Mae'r awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r polisi cludiant, a'r disgwyl yw y bydd y Cabinet yn ystyried y fersiwn ddiwygiedig cyn diwedd 2016/ dechrau 2017. Fodd bynnag, mae'r awdurdod dal wedi ymrwmo i ddarparu cludiant i alluogi disgyblion i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

1.4 Cyd-destun Polisi a Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg⁴

Yn 2010, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gyntaf erioed, a oedd yn manylu ar y cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn manylu ar weledigaeth Llywodraeth Cymru:

⁴ <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?skip=1&lang=cy>

'Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.'

Mae CSGA Cyngor Sir Powys ar gyfer 2017-20 yn manylu ar sut bydd y Cyngor yn ymateb i'r 7 deilliant allweddol a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050⁵

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar strategaeth newydd i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae addysg yn un o'r 6 blaenoriaeth a amlinellir yn y strategaeth ddrafft ac, o ran Addysg, mae'r strategaeth ddrafft yn nodi

'Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'r blynyddoedd cynnar hefyd yn hanfodol, oherwydd y cynharaf y mae plentyn yn cael cyffyrddiad â'r iaith, y mwyaf o gyfle sydd ganddo i ddod yn rhugl.'

Mae'r awdurdod yn cydnabod y rôl allweddol y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn ei chwarae yn hyn o beth.

Ailysgrifennu'r Dyfodol – Codi Uchelgais a Chyrhaeddiad yn Ysgolion Cymru⁶

Mae'r cyngor wedi ymrwmo i godi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Powys ac i chwalo rhwystrau y mae dysgwyr o gefndiroedd amddifad yn eu hwynebu. Mae'r CSGA hwn yn manylu ar weledigaeth yr awdurdod i gynnig darpariaeth gyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd amddifad yn gallu manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gydol pob cyfnod o addysg.

Dyfodol Llwyddiannus⁷

Mae'r ddogfen Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio sawl tro at y Gymraeg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod wedi ymrwmo i ddatblygiad ysgolion cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn unol â'r argymhellion a amlinellir yn y ddogfen.

⁵ <http://gov.wales/betaconsultations/welshlanguage/welsh-language-strategy-consultation/?skip=1&lang=cy>

⁶ <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy>

⁷ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁸

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 7 Nod Llesiant, sy'n darparu cyd-weledigaeth i gyrff cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt weithio tuag ati. Un o'r Nodau hyn yw 'Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Fe fydd CSGA yr awdurdod ar gyfer 2017-20 yn gyfrannwr allweddol at gyflawni'r nod hwn yn y tymor hir, trwy sicrhau ei bod yn haws manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg gydol pob cyfnod o addysg, gan sicrhau nifer fwy o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.

⁸ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

ADRAN 2

CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Deilliant 1 Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Aseswyd 18.5% o ddisgyblion Blwyddyn 2 ym Mhowys mewn Cymraeg (iaith Gyntaf) ym mlwyddyn academiaidd 2015/16. Mae hyn yn ostyngiad, o'i gymharu â % y disgyblion Blwyddyn 2 a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2014/15 (19.1%) a 2013/14 (19.3%).

Mae'r targedau a ganlyn wedi'u gosod ar gyfer oes y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn:

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y disgyblion a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 2	18.5%	19.0%	19.5%	20.0%	20.5%

Er nad yw'r targedau hyn yn uchelgeisiol, i bob golwg, barn yr awdurdod yw eu bod yn adlewyrchiad realistig o'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'r awdurdod wedi cydnabod bod 'angen newidiadau sylweddol i'r modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir er mwyn annog hyder yn y system a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg gydol eu gyrfaedd addysgol'. Fodd bynnag, mae'r awdurdod hefyd wedi cydnabod y bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn weithio. Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â % y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg ym mlwyddyn 2, felly fe fydd rhai blynyddoedd wedi mynd heibio cyn bydd y dangosydd hwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod sylfaen yn sgil unrhyw newidiadau yn y modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.

Y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg bresennol

Cynigir y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys drwy gyfuniad o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwy ffrwd. Mae yna 10 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, a 13 o ysgolion eraill sy'n cynnig addysg gynradd cyfrwng Cymraeg drwy ddarpariaeth dwy

ffrwd. Mae pob ysgol sy'n cynnig darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg naill ai'n ysgolion cyfrwng Cymraeg neu'n ysgolion dwy ffrwd, felly mae'r awdurdod yn disgwyl y bydd disgyblion mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar wahân.

Cynlluniau cyfalaf

Fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru, bu buddsoddiad cyfalaf yn yr ysgolion a ganlyn sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Cymraeg.

- Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, Ystradgynlais – ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg â 300 o ddisgyblion, a agorwyd yn 2012-13
- Ysgol Dafydd Llwyd, y Drenewydd – adeilad newydd sy'n gallu darparu ar gyfer 270 o ddisgyblion, a agorwyd ym mis Ionawr 2016 i ddisodli llety blaenorol Ysgol Dafydd Llwyd

Hefyd, mae'r awdurdod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r datblygiadau cyfalaf a ganlyn o fewn Band A:

- Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y Trallwng
- Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth

Mae'r awdurdod yn y cyfnodau cynnar o gynllunio buddsoddiad cyfalaf fel rhan o Fand B rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Rhoddir ystyriaeth lawn i amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y CSGA hwn wrth gynllunio blaenoriaethau ar gyfer Band B.

Cytundebau S106

Mae'r awdurdod wedi nodi bod Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, sef yr unig ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Ystradgynlais, bron iawn yn llawn. Y disgwyl yw y bydd y galw am leoedd yn yr ysgol yn cynyddu yn y dyfodol oherwydd datblygiad tai newydd arfaethedig yn agos at yr ysgol. Mae'r awdurdod wedi llwyddo i sicrhau cytundeb S106 ar gyfer estyn yr ysgol pan fydd rhan o'r datblygiad arfaethedig wedi'i chwblhau.

Ffederasiynau

Dim ond un ffederasiwn sydd ym Mhowys ar hyn o bryd. Ffederasiwn Ysgol Glantwymyn, Ysgol Llanbrynmair ac Ysgol Carno yw hwn, sef tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Machynlleth. Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i gael mwy o ffederasiynau sydd a wnelo â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond mae creu ffederasiwn ac uno ysgolion yn opsiynau a ystyrir wrth adolygu darpariaeth ysgolion yn yr awdurdod.

Asesu'r galw

Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn 2010, ac mae'r canlyniadau wedi helpu i ddarparu sail ar gyfer rhaglenni moderneiddio addysg gynradd ac uwchradd. Mae'r awdurdod wedi bod yn barod i gynnal arolwg pellach ers 2014 yn unol â gofynion

Rheoliadau 2013, ond cafwyd hi'n anodd cael gafael ar y wybodaeth sy'n ofynnol i gynnal yr arolwg hwn oherwydd bod babanod sy'n byw ym Mhowys yn cael eu geni mewn ysbytai sydd yn ardaloedd nifer o awdurdodau lleol, ac felly'r awdurdodau hynny sy'n cofrestru eu genedigaethau. Mae'r awdurdod wedi ymrwmo o hyd i gynnal y gwaith hwn, ac yn ystod cyfnod y CSGA hwn, fe fydd yn canolbwyntio ar asesu ardaloedd unigol fel rhan o unrhyw waith i sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd.

Mae'r awdurdod hefyd wedi bod yn edrych ar ddulliau amgen o asesu galw cudd posibl am addysg cyfrwng Cymraeg. Dim ond megis cychwyn y mae'r gwaith hwn, ond ystyrir y wybodaeth a ddaw i'r fei yn sgil y gwaith hwn wrth gynllunio datblygiadau yn y dyfodol.

Darparu gwybodaeth i rieni

Darperir gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg i rieni yn llyfr Derbyniadau'r Cyngor, y mae pob rhiant yn ei dderbyn cyn ymgeisio am le mewn ysgol gynradd i'w plentyn. Hefyd, mae gwybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor hefyd yn darparu gwybodaeth. Fe fydd yr awdurdod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, fel y Mentrau Iaith, i roi Strategaeth Gyfathrebu / Farchnata ar waith ar y cyd â sefydlu unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, yn unol â Strategaeth Hybu'r Gymraeg yr awdurdod y mae disgwyl iddi gael ei chymeradwyo cyn diwedd 2016.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliant 1

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
1.1	Cwblhau'r adolygiad o'r blynyddoedd cynnar a sicrhau bod o leiaf 24 o sefydliadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu comisiynu.	Mae adolygiad yr awdurdod o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar wedi bod yn mynd rhagddo am nifer o flynyddoedd, ac mae nawr bron iawn â'i gwblhau. Cafodd cynnig yr awdurdod i godi oedran derbyn yn ysgolion Powys, a ddaw ar waith o 1af Medi, ei gynnwys yng nghamau olaf yr adolygiad hwn. Un o nodau'r adolygiad o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yw sicrhau bod pob sefydliad yn cael ei ariannu ar lefel hyfyw, a bod yr awdurdod yn ymateb i'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.	Comisiynu sefydliadau fel eu bod yn gweithredu erbyn 1af Medi 2017
1.2	Sefydlu ac adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y Trallwng	Mae'r awdurdod wedi bod yn gweithio ar adolygiad o'r ddarpariaeth gynradd yn nhref y Trallwng am nifer o flynyddoedd, ac mae'n falch bod y prosiect hwn nawr bron iawn â'i gwblhau.	Agor yr ysgol ym mis Medi 2017 ar safle presennol Ardwyn

		Mae'r awdurdod yn gobeithio y bydd sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y Trallwng yn arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y dalgylch, a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.	Agor yr adeilad newydd yn 2018/19
1.3	Cefnogi Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth i symud ar hyd y continwrm ieithyddol	Mae nifer y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Saesneg o fewn dalgylch Bro Hyddgen wedi gostwng yn sylweddol dros y blynnyddoedd diweddar. Fe fydd yr awdurdod yn cefnogi Ysgol Bro Hyddgen i symud ar hyd y continwrm ieithyddol er mwyn cynnig model darparu mwy hyfyw ar gyfer yr ysgol, ac i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y dalgylch yn gwbl ddwyieithog erbyn yr amser y byddant yn gadael yr ysgol.	Ceisio cymeradwyaeth gychwynnol y Cabinet erbyn mis Medi 2017
1.4	Adolygu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Llanidloes	Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Llanidloes. Fe fydd yr awdurdod yn adolygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn yr ardal, ac fe fydd yn ystyried sut i adeiladu ar y twf hwn, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyflawni dyhead y CSGA hwn.	Cychwyn yr adolygiad yn ystod 2017
1.5	Adolygu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Canolbarth Powys	Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nalgylchoedd Llandrindod a Llanfair-ym-muallt. Fe fydd yr awdurdod yn adolygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn yr ardal, ac fe fydd yn ystyried sut i adeiladu ar y twf hwn, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyflawni dyhead y CSGA hwn.	Cychwyn yr adolygiad yn ystod 2018
1.6	Adolygu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Ystradgynlais	Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Ystradgynlais, sydd wedi rhoi pwysau ar y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, sef yr unig ddarparwr cynradd cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch.	Cychwyn yr adolygiad yn ystod 2019

		<p>Er bod yr awdurdod wedi llwyddo i sicrhau cytundeb S106 i estyn Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr ar ôl i ran o'r datblygiad arfaethedig gael ei chwblhau, mae'r awdurdod yn cydnabod bod cefndir ardal Ystradgynlais yn gwneud hon yn ardal strategol allweddol o ran twf yn niferoedd y disgyblion cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Fe fydd yr awdurdod yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol yn y dalgylch i nodi cyfleoedd i wneud addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch, er mwyn ateb y galw y mae tystiolaeth ohono am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch, ac i hybu twf pellach.</p>	
1.7	Sefydlu darpariaeth ar gyfer hwyreddyfodiaid ym Mhowys	<p>Yn wahanol i ardaloedd eraill, nid oes unrhyw ganolfan ar hyn o bryd ar gyfer hwyreddyfodiaid ym Mhowys.</p> <p>Darperir cymorth i'r rheiny sy'n dod yn hwyr i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd mewn ymateb i geisiadau oddi wrth ysgolion unigol. Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion ym mlwyddyn 2 ac uwch. Darperir y cymorth drwy gyfuniad o gymorth athrawon a chymorth cynorthwywyr dosbarth. Mae'r cymorth fel rheol am gyfnod o 2 flynedd, ac erbyn diwedd y cyfnod hwn mae disgwyl i'r disgyblion allu dilyn y cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg. Y nod yw y bydd pob disgybl yn dilyn y rhaglen astudiaeth Cymraeg iaith gyntaf.</p> <p>Mae'r awdurdod yn cydnabod bod y cyfleoedd i'r rheiny sy'n hwyr i addysg cyfrwng Cymraeg fanteisio ar ddarpariaeth trochi yn yr iaith Gymraeg yn gyfyngedig ym Mhowys o'u cymharu â'r cyfleoedd sydd ar gael mewn ardaloedd eraill. Fe fydd yr awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn ystod cyfnod y CSGA hwn.</p>	Cytuno ar y lleoliad ar gyfer canolfan hwyreddyfodiaid erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2018/19

Deilliant 2 Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Aseswyd 14.1% o ddisgyblion Blwyddyn 9 ym Mhowys mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Mae hyn yn gynydd, o'i gymharu â chanran y disgyblion Blwyddyn 9 a aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn 2014/15 (12.5%) a 2013/14 (10.5%).

Mae canran y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn is o lawer na % y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 2, ond rhaid nodi bod disgyblion cyfrwng Cymraeg yn ardal Ystradgynlais yn trosglwyddo y tu allan i'r sir i Ysgol Gyfun Ystalyfera i gael eu darpariaeth uwchradd. Hefyd, yn hanesyddol, mae nifer o ddisgyblion o'r tu allan i Bowys wedi trosglwyddo i'r sir i fanteisio ar ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, sydd hefyd wedi effeithio ar ganran y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf).

Mae'r dangosydd data'n cyfeirio at ganran y disgyblion a asesir mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn hytrach na chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n debygol bod canran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ryw fymryn yn is na hyn. Mae hyn oherwydd bod rhai disgyblion mewn ysgolion dwy ffrwd yn dewis manteisio ar addysg cyfrwng Saesneg ond yn parhau i astudio Cymraeg (iaith gyntaf), a hefyd oherwydd bod rhai disgyblion yn dewis trosglwyddo i'w darparwr addysg uwchradd cyfrwng Saesneg lleol yn hytrach na'r darparwr addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig ar gyfer eu hardal, ond yn parhau i astudio Cymraeg (iaith gyntaf).

Mae'r targedau a ganlyn wedi'u gosod ar gyfer oes y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn:

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y disgyblion a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 9	14.1%	14.5%	14.5%	14.5%	14.5%

Er nad yw'r targedau hyn yn uchelgeisiol, i bob golwg, barn yr awdurdod yw eu bod yn adlewyrchiad realistig o'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'r awdurdod wedi cydnabod bod 'angen newidiadau sylweddol i'r modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir er mwyn annog hyder yn y system a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg gydol eu gyrfaoedd addysgol'. Fodd bynnag, mae'r awdurdod hefyd wedi cydnabod y bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn weithio. Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â % y disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg ym mlwyddyn 9, felly fe fydd llawer o flynyddoedd wedi mynd heibio cyn bydd y dangosydd hwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn nifer y disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod y sector cynradd yn sgil

unrhyw newidiadau yn y modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. Hefyd, mae'n bosibl y bydd cynlluniau'r awdurdod i gynnig darpariaeth deg i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd yn arwain at leihad yng nghyfran y disgyblion a fydd yn parhau i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn y tymor byr.

Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol

Ar hyn o bryd, cynigir y ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy nifer o ysgolion dwy ffrwd ledled Powys. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg ac amrywiaeth y pynciau a ddarperir ym mhob ysgol yn amrywio'n sylweddol, ac mae hyn yn lleihau wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgolion. Datganwyd yn CSGA yr awdurdod ar gyfer 2014-17 mai nod yr awdurdod oedd y byddai ysgolion uwchradd dwy ffrwd yn dod yn ysgolion uwchradd categori 2B erbyn mis Medi 2020, i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n ddigonol i'w galluogi i barhau i ddatblygu eu sgiliau cyfrwng Cymraeg yn ystod eu hamser yn yr ysgol uwchradd. Fodd bynnag, bu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn yn gyfyngedig, yn enwedig o ran darpariaeth Cyfnod Allweddol 4, ac mae'r sefyllfa ariannol heriol y mae'r awdurdod yn ei hwynebu wedi cymhlethu pethau, a bydd hyn yn ei gwneud yn fwyfwy anodd cyflawni'r targed hwn erbyn 2020.

Mae'r awdurdod nawr yn awyddus i nodi opsiynau amgen er mwyn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg drwy bob cyfnod allweddol. Ym mis Ionawr 2015, fe gymeradwyodd y Cabinet ddechrau Rhaglen Ad-drefnu Uwchradd, sydd â dau amcan allweddol:

- **Ad-drefnu addysg uwchradd ac ôl-16** i greu seilwaith cynaliadwy o ysgolion a dosbarthiadau chwech ledled Powys, gan alluogi darparu amrywiaeth ehangach o bynciau o bob safle ysgol, ond gwneud yr angen am deithio a chludiant rhwng ysgolion mor fach â phosibl
- **Ad-drefnu addysg cyfrwng Cymraeg** â'r nod o sefydlu o leiaf un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir, a chydgyfnerthu ffrydiau cyfrwng Cymraeg eraill i ddod yn unedau mwy. Fe fydd hyn yn galluogi ysgolion i gynnig cwricwlwm priodol a llwybrau dilyniant i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Wedi hynny, ym mis Mawrth 2015, fe gytunodd y cabinet i fwrw ymlaen â'r Rhaglen Ad-drefnu Uwchradd ar sail y pedair blaenoriaeth a ganlyn:

- Blaenoriaeth 1: Sefydlu Campws Dysgu'r Bannau newydd, Aberhonddu
- Blaenoriaeth 2: Adolygu addysg uwchradd yng Nghanolbarth Powys
- Blaenoriaeth 3: Adolygu Addysg Ôl-16 yn Ystradgynlais
- Blaenoriaeth 4: Adolygu Addysg Uwchradd yng Ngogledd Powys, â ffocws ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae Blaenoriaethau 1 a 2 wedi cynnwys ystyriaeth o'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae gwaith ar Flaenoriaeth 4 wedi canolbwyntio ar sefydlu un neu fwy o ysgolion uwchradd categori 2A yng Ngogledd Powys.

Trosglwyddo disgyblion

Ar y cyfan, mae nifer y disgyblion nad ydynt yn trosglwyddo o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn eithaf bach, er bod yr awdurdod yn cydnabod bod yna broblemau mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y Trallwng a Llandrindod. Fe fydd yr awdurdod yn ceisio datrys y problemau hyn fel rhan o'i strategaeth i wneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg benodedig yn fwy hygyrch.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod gwaith sy'n mynd rhagddo i ddarparu llwybr dilyniant mwy cadarn yn y cyfnod uwchradd yn debygol o arwain at leihad yng nghyfran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y tymor byr.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliant 2

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
2.1	Parhau â'r gwaith i sefydlu un neu fwy o ysgolion categori 2A yng ngogledd Powys	<p>Ym mis Medi 2015, fe benderfynodd Cabinet y Cyngor 'bod dymuniad i sefydlu ysgol neu ysgolion dwyieithog, categori 2 A yng Ngogledd Powys', ac 'i lunio achos busnes yn unol â hynny'</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr achos busnes, a'r disgwyl yw y bydd y Cabinet yn ei ystyried maes o law.</p>	<p>Y Cabinet i ystyried yr achos busnes yn ystod 2017</p> <p>Pennu camau pellach yn sgil penderfyniad y Cabinet</p>
2.2	Canoli darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer de a chanolbarth Powys	<p>Mae'r awdurdod yn pryderu nad yw'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn ddichonadwy. 22 o ddisgyblion sydd yn y ffrwd ar hyn o bryd.</p> <p>Barn yr awdurdod yw y byddai canoli'r ddarpariaeth ar gyfer de a chanolbarth Powys yn Llanfair-ym-muallt yn sicrhau mäs critigol mwy o ddysgwyr, a fyddai'n gwella lefel y ddarpariaeth y gellid ei chynnig i'r disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt ac Ysgol Uwchradd Aberhonddu ar hyn o bryd, ac a fyddai'n darparu sail gadarn y gellid ei datblygu ymhellach yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad ddwywaith ynglŷn â chau'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu, a chanoli'r ddarpariaeth ar gyfer de a chanolbarth Powys yn Ysgol Uwchradd</p>	<p>Dechrau ymgynghori cyn diwedd 2016</p> <p>Os cymeradwyir hynny, cau'r ffrwd cyfrwng Cymraeg o 31ain Awst 2017.</p>

		<p>Llanfair-ym-muallt. Fodd bynnag, oherwydd rhesymau cyfreithiol sydd a wnelo â chynigion eraill sydd hefyd dan sylw, ni fu'n bosibl cwblhau'r broses hon.</p> <p>Ar 27ain Medi 2016, fe gymeradwyodd y Cabinet ymgynghoriad arall ynglŷn â chau'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu.</p>	
2.3	Ffurfioli'r trefniant â Chastell-nedd Port Talbot ynglŷn â throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gyfun Ystalyfera	<p>Darperir cludiant rhad ac am ddim i alluogi dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn ardal Ystradgynlais i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg benodedig yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniant ffurfiol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gefnogi hyn.</p> <p>Roedd CSGA blaenorol yr awdurdod ar gyfer 2014-17 yn cynnwys ymrwymiad i ffurfioli'r trefniant hwn, ond ni chyflawnwyd hyn. Mae'n hanfodol ffurfioli'r trefniant hwn nawr, er mwyn sicrhau bod cwricwlwm cyfrwng Cymraeg llawn yn parhau i fod yn hygyrch i ddysgwyr Powys.</p>	Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017
2.4	Fel rhan o sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y Trallwng, cynyddu nifer y disgyblion o'r Trallwng sy'n parhau i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.	<p>Mae nifer a chyfran y disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu Ysgol Maesydre ac sy'n trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Caereinion i fanteisio ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn isel.</p> <p>Ar y cyd â sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y Trallwng, fe fydd yr awdurdod yn gweithio gyda phennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol newydd i sefydlu cysylltiadau pontio â'r darparwr addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig ar gyfer ardal y Trallwng.</p>	Dechrau'r gwaith ar ôl sefydlu'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn y Trallwng ym mis Medi 2017.
2.5	Nodi cyfleoedd i sefydlu darpariaeth trochi i hwyrddyfodiaid	Nid yw'r cyngor ar hyn o bryd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion sydd wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn y sector cynradd i drosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu haddysg uwchradd.	Cytuno ar y lleoliad ar gyfer darpariaeth trochi i hwyrddyfodiaid erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2019/20

		<p>Yn ystod oes y CSGA hwn, fe fydd yr awdurdod yn nodi cyfleoedd i gyflwyno cynllun o'r fath.</p> <p>Mae'r awdurdod yn cydnabod mai darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg benodedig sy'n rhoi'r cyfle gorau i ddisgyblion ymdrochi yn y Gymraeg, a'r cyfle gorau i gynllun o'r math hwn lwyddo. Felly, fe fydd sefydlu darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid yn y cyfnod uwchradd yn ystyriaeth allweddol fel rhan o unrhyw symudiad i sefydlu darpariaeth uwchradd categori 2A.</p>	
--	--	--	--

Deilliant 3 Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4 Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Yn 2015/16, roedd 85.19% o ddysgwyr a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r targedau a ganlyn wedi'u gosod ar gyfer oes y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn:

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y dysgwyr wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.	85.19%	85.5%	86%	86.5%	87%

Er nad yw'r targedau hyn yn uchelgeisiol, i bob golwg, barn yr awdurdod yw eu bod yn adlewyrchiad realistig o'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'r awdurdod wedi cydnabod bod 'angen newidiadau sylweddol i'r modd o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir er mwyn annog hyder yn y system a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg gydol eu gyrfaoedd addysgol'. Fodd bynnag, mae'r awdurdod hefyd wedi cydnabod y bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn weithio.

Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol

Fel a amlinellwyd yn achos Deilliant 2, darperir darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy bob cyfnod o addysg drwy nifer o ysgolion dwy ffrwd ledled Powys. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg ac amrywiaeth y pynciau a ddarperir ym mhob ysgol yn amrywio'n sylweddol. Oherwydd nifer fach y disgyblion mewn rhai ysgolion dwy ffrwd, mae'n gryn her darparu pynciau cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5. Datganwyd yn CSGA yr awdurdod ar gyfer 2014-17 mai nod yr awdurdod oedd y byddai ysgolion uwchradd dwy ffrwd yn dod

yn ysgolion uwchradd categori 2B erbyn mis Medi 2020, i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n ddigonol i'w galluogi i barhau i ddatblygu eu sgiliau cyfrwng Cymraeg yn ystod eu hamser yn yr ysgol uwchradd. Fodd bynnag, bu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn yn gyfyngedig, yn enwedig o ran darpariaeth Cyfnod Allweddol 4, ac mae'r sefyllfa ariannol heriol y mae'r awdurdod yn ei hwynebu wedi cymhlethu pethau, a bydd hyn yn ei gwneud yn fwyfwy anodd cyflawni'r targed hwn erbyn 2020. Mae'r awdurdod nawr yn awyddus i nodi opsiynau amgen er mwyn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg drwy bob cyfnod allweddol, a amlinellir yn Neilliant 2.

Mae pedair ysgol yn cynnig darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog – Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt, Ysgol Uwchradd Caereinion, Ysgol Uwchradd Llanfyllin ac Ysgol Bro Hyddgen. Mae'r awdurdod yn comisiynu cyrsiau drwy Gydweithrediad Gogledd Powys a Chydweithrediad De Powys.

Grŵp NPTC o golegau sy'n darparu mwyafrif y ddarpariaeth alwedigaethol ym Mhowys, ar eu campysau yn y Drenewydd ac Aberhonddu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y naill gampws na'r llall ar hyn o bryd. Darperir rhai cyrsiau galwedigaethol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn rhai ysgolion uwchradd, ond mae amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael yn fach.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliannau 3 a 4

Darperir amcanion yr awdurdod er mwyn cynyddu nifer y pynciau TGAU sydd ar gael, ac felly nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn yr amcanion ar gyfer Deilliant 2.

Darperir amcanion yr awdurdod er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ôl-16 sydd ar gael, ac felly nifer y myfyrwyr sy'n astudio pynciau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg, hefyd o fewn yr amcanion ar gyfer Deilliant 2. Mae hyn yn cynnwys y gallu i fanteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg.

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
3/4.1	Parhau i gefnogi ysgolion i gynyddu cyfleoedd ôl-16 ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg	Mae'r awdurdod yn cydnabod bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16 yn amrywio'n sylweddol ledled y sir, a'r disgwyl yw y bydd y sefyllfa'n gwaethgu oherwydd y gostyngiad parhaus yn niferoedd y disgyblion ac, o'r herwydd, y cyllid ôl-16 y mae'r awdurdod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r awdurdod yn derbyn grant i roi hwb i addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg oddi wrth Lywodraeth Cymru, i gefnogi ariannu cyrsiau ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Dyrennir hwn i ysgolion sy'n cynnig darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgolion sy'n derbyn y cyllid hwn yn darparu cyrsiau	Gydol cyfnod y CSGA

		<p>drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae nifer ac amrywiaeth y cyrsiau a ddarperir yn gyfyngedig.</p> <p>Oherwydd y niferoedd bach dan sylw, mae ysgolion yn edrych mwy a mwy am gyfleoedd i uno dosbarthiadau a darparu pynciau'n ddwyieithog, ond nid yw hyn yn cyflawni dyheadau'r CSGA hwn.</p> <p>Mae gan Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth bartneriaeth ÔI-16 lwyddiannus ag Ysgol Gyfun Penweddig i ddarparu pynciau wedi'u cyfoethogi ar gyfer y disgyblion 14-19 oed yn yr ysgol. Mae Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt yn cydweithio â Choleg Sir Gâr ar hyn o bryd i ddarparu Amaethyddiaeth CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Fe fydd yr awdurdod yn archwilio cyfleoedd i gydweithio â darparwyr galwedigaethol i gyflwyno pynciau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg newydd.</p>	
--	--	--	--

Deilliant 5 Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

5.1 Cymraeg Iaith Gyntaf

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Darperir data sy'n ymwneud â chyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg iaith Gyntaf a thargedau ar gyfer oes y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn yn Atodiad A.

Mae Cyngor Sir Powys yn cefnogi pob ysgol i wella safonau llythrennedd Cymraeg drwy sicrhau bod gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol a maes llafur newydd CBAC ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf yn cael eu bodloni. Mae Cyngorwyr Her yr awdurdod, ac yn enwedig y Cyngorydd Her arweiniol ar gyfer y Gymraeg, yn darparu cymorth ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf. Yr awdurdod lleol ac ERW sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi.

Mae gweithwyr ERW yn cydweithio i gefnogi awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth drwy nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd a'r Gymraeg ar draws y rhanbarth. Cytunir ar ddewislen effeithiol o gymorth, datblygir adnoddau hyfforddi a'u defnyddio i ddarparu hyfforddiant ar draws y rhanbarth, er mwyn sicrhau cysondeb yn y modd o weithredu ar draws rhanbarth ERW.

Nodir blaenoriaethau lleol yn flynyddol yn y cynllun Lefel 3 ar gyfer Llythrennedd o fewn Fframwaith Atebolwydd y Gwasanaeth Ysgolion, ar ôl gwerthuso safonau'n fanwl. Nodir targedau mesuradwy ac amserlen glir, a chaiff cynnydd ei fonitro bob chwarter.

Yr ysgolion eu hunain, yn ogystal â Menter Maldwyn a Menter Brycheiniog, yr Urdd a'r Clwb Ffermwyr Ifanc, sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio'r iaith mewn amgylcheddau ffurfiol ac anffurfiol. Yn ystod cyfnod y CSGA blaenorol, darparwyd amrywiaeth eang o gyfleoedd i bob un o ysgolion Powys gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd ym Meifod yn 2015. Yn ystod cyfnod y CSGA hwn, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ger Llanfair-ym-muallt yn 2018. Fe fydd hyn yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion, yn enwedig y rheiny yng Nghanolbarth a De Powys, gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, a bydd yr awdurdod yn gweithio gyda'r Urdd a Menter Brycheiniog i sicrhau y cynigir cynifer â phosibl o gyfleoedd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid yw'r awdurdod yn gweithredu Siarter Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ond caiff hyn ei gyflwyno ledled Powys unwaith y derbynnir gwybodaeth bellach oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae un ysgol, sef Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, yn Ystradgynlais, eisoes yn cymryd rhan yn 'Tanio'r Ddraig', sef y Siarter Iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Ysgol Gyfun Ystalyfera a'r ysgolion sy'n ei bwydo yn 2014.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliant 5 – Cymraeg Iaith Gyntaf

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
5.1.1	Cynyddu % yr ysgolion sy'n perfformio yn y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn Cymraeg Iaith Gyntaf drwy ddarparu hyfforddiant ar agweddau ar y Gymraeg ac annog cymorth ysgol i ysgol	<p>Ar hyn o bryd, mae 41% (9 o ysgolion) yn perfformio yn y 50% is o ysgolion tebyg.</p> <p>Dadansoddir data'r ysgolion a'r awdurdod lleol yn flynyddol, a thargedir ysgolion unigol i Gynghorwyr Her eu cefnogi a'u herio yn ystod ymweliadau blynyddol yn nhymor yr hydref.</p> <p>Gwerthusir perfformiad ysgolion yn flynyddol drwy ddadansoddi data ac ymweld â phob ysgol yn yr awdurdod lleol.</p>	Erbyn 2020
5.1.2	<p>Cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uchaf o ran Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyfnod Sylfaen – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Deilliant 6 i 48% - Cyfnod Allweddol 2 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 i 55% - Cyfnod Allweddol 3 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 6 i 65% 	<p>Cyfnod Sylfaen 39.3% yw'r ganran ar hyn o bryd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.2%</p> <p>Cyfnod Allweddol 2 44.3% yw'r ganran ar hyn o bryd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 38.0%. Mae Powys yn y 4ydd safle o gymharu'r awdurdod ag awdurdodau eraill yng Nghymru</p> <p>Cyfnod Allweddol 3 52.8% yw'r ganran ar hyn o bryd. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 57.3%. Fodd bynnag, mae cohortau bach yn ffactor sylweddol ac yn golygu bod canrannau'n amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall.</p> <p>Cyfnod Allweddol 4 63.7% (damcaniaethol) yw'r ganran ar hyn o bryd</p>	<p>Cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni deilliannau / lefelau uwch erbyn 2020. (Rhaid ystyried y newidiadau i'r trefniadau asesu o fis Medi 2018 yn y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3)</p> <p>Cyfnod allweddol 4 – 80% i gyflawni Lefel 2 erbyn 2020.</p>

	- TGAU – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni A* - B i 80%		
5.1.3	Rhoi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, gyda'r nod bod pob ysgol gynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r Cynllun.	<p>Mae'r Cyngor wedi gweld bod Siarteri Iaith Gymraeg wedi cael effaith positif ar y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ardaloedd fel Gwynedd.</p> <p>Mae'r Cyngor yn awyddus i ddarparu cyfleoedd i ysgolion Powys gynig cyfleoedd tebyg i ddisgyblion, ac mae ar hyn o bryd yn aros am ganllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Siarter Iaith Gymraeg genedlaethol.</p>	Nodi'r amserlen pan dderbynnir canllawiau pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru.

5.2 Cymraeg Ail Iaith

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Darperir data sy'n ymwneud â chyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith a thargedau ar gyfer oes y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn yn Atodiad A.

Mae Cyngor Sir Powys yn cefnogi pob ysgol i wella Cymraeg ail iaith drwy'r gwasanaeth Athrawon Bro. Mae hwn yn cynnwys 5 Athro Bro ac 1 Uwch Athrawes Fro. Rhoddir ysgolion mewn categorïau ar sail set o feini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar eu hanghenion cymorth, a darperir cymorth ar lefel uwch mewn ysgolion categori 2 a 3. Mae'r Athrawon Bro yn cefnogi addysgu a dysgu Cymraeg fel Ail Iaith a datblygiad sgiliau dwyieithog disgyblion o sefydliadau Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 lle cynigir y Gymraeg fel ail iaith. Mae'r tîm yn darparu cymorth ychwanegol wedi'i dargedu i ysgolion cyn ac ar ôl arolygiadau, ac yn darparu cymorth safoni a chymredoli ar gyfer clystyrau i wella arfer mewn ysgolion cynradd ac i godi safonau. Mae'r tîm hefyd yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ar gyfer ysgolion; mae'r rhain yn canolbwyntio ar wella sgiliau ieithyddol a'r fethodoleg addysgu. Darperir sesiynau cefnogi a mentora dilynol hefyd i athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu sydd wedi cwblhau Cynlluniau Sabothol.

Nodir blaenoriaethau lleol yn flynyddol yn y cynllun Lefel 3 ar gyfer Llythrennedd o fewn Fframwaith Atebolrwydd y Gwasanaeth Ysgolion, ar ôl gwerthuso safonau'n fanwl. Nodir targedau mesuradwy ac amserlen glir, a chaiff cynnydd ei fonitro bob chwarter.

Mae disgwyl i ysgolion sy'n addysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol. Mae yna gyfleoedd hefyd i ddisgyblion fanteisio ar weithgareddau y mae Menter Maldwyn a Menter Brycheiniog, yr Urdd a'r Clwb Ffermwyr Ifanc yn eu darparu. Darparwyd amrywiaeth eang o gyfleoedd i bob un o ysgolion Powys gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd ym Meifod yn 2015. Yn ystod cyfnod y CSGA hwn, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ger Llanfair-ym-muallt yn 2018. Fe fydd hyn yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion, yn enwedig y rheiny yng Nghanolbarth a De Powys, gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

Mae'r awdurdod wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau eraill o fewn ERW i sefydlu Siarter Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion sy'n addysgu Cymraeg fel Ail Iaith. Mae 46 o ysgolion ym Mhowys wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i roi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith yn eu hysgolion, yn dechrau ym mis Medi 2016/17.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliant 5 – Cymraeg Ail Iaith

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
5.2.1	<p>Cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uchaf o ran Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyfnod Allweddol 2 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 i 35% - Cyfnod Allweddol 3 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 6 i 53% - TGAU – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni A* - B 	<p>Cyfnod Allweddol 2 33.7% yw % y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5+ yn 2016. Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol o 23.3%. Mae'r data yn dangos tystiolaeth o duedd sylweddol ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 10.9 pwynt canran ers 2014.</p> <p>Cyfnod Allweddol 3 52.1% yw % y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6+ yn 2016. Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol o 44.6%. Eto, mae'r data yn dangos tystiolaeth o duedd sylweddol ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 22 pwynt canran ers 2014.</p>	<p>Cyfnod Allweddol 2 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 i 35% erbyn 2019</p> <p>Cyfnod Allweddol 3 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 6 i 53% erbyn 2019</p> <p>Cyfnod Allweddol 4 – cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni A* - B erbyn 2019</p>

5.2.2	<p>Rhoi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith ar gyfer ysgolion Cymraeg Ail Iaith, gyda'r nod bod pob ysgol sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith yn mabwysiadu'r Siarter ac yn cyflawni'r dyfarniad efydd yn ystod cyfnod y CSGA.</p>	<p>Mae'r awdurdod wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau eraill o fewn ERW i sefydlu Siarter Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion sy'n addysgu Cymraeg fel Ail Iaith. Nod y Siarter yw sicrhau y darperir cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Mae 46 o ysgolion ym Mhowys wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i roi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith yn eu hysgolion, yn dechrau ym mis Medi 2016/17.</p>	<p>Pob ysgol sy'n addysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith i fabwysiadu'r Siarter a chyflawni'r dyfarniad efydd erbyn 2020.</p>
-------	--	---	--

Deilliant 6 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Diwellir y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol o fewn addysg y brif ffrwd trwy ysgolion neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg. Darperir cymorth trwy Athro Ymgynghorol Anghenion Addysgol Arbennig cyfrwng Cymraeg yr awdurdod, a thrwy rwydweithiau anffurfiol athrawon cymorth anghenion dysgu ychwanegol sy'n rhannu adnoddau.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar gael yn y Ganolfan Arbenigol yn Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, Ystradgynlais, ac mae darpariaeth ddwyieithog ar gael yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Nid oes unrhyw gyfleusterau i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn unrhyw Ganolfannau Arbenigol eraill ledled Powys.

Nid oes unrhyw gyfleoedd i fanteisio ar ddarpariaeth Ysgolion Arbennig cyfrwng Cymraeg ym Mhowys, ond mae yna gyfleoedd i fanteisio ar ddarpariaeth mewn awdurdodau cyfagos lle mae yna ddarpariaeth hygyrch ar gael. Byddai Panel Statudol Anghenion Addysgol Arbennig yr awdurdod yn ystyried unrhyw gais i ddisgybl o Bowys fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Ysgol Arbennig mewn awdurdod arall.

Mae'r awdurdod yn cydweithredu ag awdurdodau eraill o fewn consortiwm ERW. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cronni adnoddau cymorth sydd ar gael i ddarparu cymorth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg.

Nid oes gan yr awdurdod unrhyw drefniant cydweithredu ffurfiol ag unrhyw awdurdod arall o ran cymorth anghenion dysgu ychwanegol, ond mae yna gyfle i weithio gydag awdurdod lleol Ceredigion i fanteisio ar gymorth Cymraeg, yn enwedig o ran cymorth seicoleg addysg.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliant 6

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
6.1	Cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol	Er bod y galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn cael ei fonitro'n barhaus, ac er bod gan yr awdurdod nod i ymateb i geisiadau unigol, nid yw'r awdurdod wedi cynnal archwiliad ffurfiol o'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn nodi meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.	Cynnal yr archwiliad yn ystod tymor y gwanwyn 2017 Nodi camau pellach i'w cymryd ar ôl cwblhau'r archwiliad

6.2	Sicrhau yr ystyrir yr angen i wneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hygyrch fel rhan o'r adolygiad o Ysgolion Arbennig yng Ngogledd Powys, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd	<p>Nid oes unrhyw ddarpariaeth Ysgolion Arbennig cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r awdurdod wrthi'n adolygu'r ddarpariaeth Ysgolion Arbennig yng Ngogledd Powys ar hyn o bryd. Fel rhan o'r adolygiad hwn, fe fydd yr awdurdod yn ystyried yr angen i wneud darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hygyrch.</p>	<p>Cwblhau'r adolygiad ym mis Ionawr 2017</p> <p>Datblygu meddyliau cychwynnol trwy lunio Achos Amlinellol Strategol / Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyllid cyfalaf</p>
-----	---	---	--

Deilliant 7 Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus

Y Sefyllfa Sydd Ohoni

Yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am recriwtio athrawon sydd â'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion yr ysgol. Pan fydd ysgol am benodi athro i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fe fydd hyn yn ofyniad hanfodol ar gyfer y swydd. Ar y cyfan, nid yw'n ymddangos bod yna unrhyw broblem wrth recriwtio athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd ond, mewn rhai ardaloedd o Bowys, mae recriwtio'n dod yn her gynyddol. Mae ysgolion mewn rhai ardaloedd o Bowys yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi sy'n siarad Cymraeg.

Fodd bynnag, mae yna anawsterau sylweddol wrth recriwtio penaethiaid sy'n siarad Cymraeg yn y sector cynradd ym Mhowys. Pan nad yw ysgolion yn gallu penodi penaethiaid parhaol, gwneir trefniadau dros dro, fel prifathrawiaethau dros dro, y mae eu hyd yn amrywio. Gall fod yn broblem benodol recriwtio penaethiaid sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd, ac mae nifer o ysgolion dwy ffrwd wedi penodi penaethiaid sydd â sgiliau Cymraeg cyfyngedig oherwydd eu bod wedi methu â recriwtio pennaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn bryder, ac nid yw'n cyrraedd nod yr awdurdod i sicrhau bod disgyblion cyfrwng Cymraeg yn gallu llwyr-ymdrochi yn y Gymraeg.

Yn y sector uwchradd, mae'r awdurdod yn ymwybodol bod rhai ysgolion wedi'i chael hi'n anodd recriwtio athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai meysydd pwnc penodol. Nod yr awdurdod yw ceisio datrys y problemau hyn drwy'r amcanion sydd wedi'u datgan o ran Deilliant 2.

Mae'r awdurdod yn cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i gynnig cyfleoedd i staff sy'n gweithio mewn ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg fynychu Cynllun Sabothol y Gymraeg, er mwyn gwella'u sgiliau iaith Gymraeg.

Prif amcanion er mwyn cyflawni Deilliant 7

Cyf	Amcan	Datganiad Ategol	Amserlen
7.1	Ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth, cynnig cyfleoedd i athrawon a chynorthwyr addysgu ledled Powys wella'u sgiliau iaith Gymraeg drwy gynnig cyrsiau Sabothol mewn lleoliadau strategol ar draws Powys	Mae 49 o athrawon a 52 o gynorthwyr addysgu wedi mynychu cyrsiau Sabothol ers 2012. Yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17, cynigir y cwrs yn y Drenewydd.	Darparu cyrsiau'n flynyddol tan 2020

7.2	Darparu cymorth ar ôl y cwrs i'r holl staff o Bowys sy'n cymryd rhan yn y cynllun Sabothol.	<p>Mae'r gwasanaeth Athrawon Bro yn darparu cymorth ar ôl y cwrs i staff o Bowys sy'n cymryd rhan yn y cynllun Sabothol.</p> <p>Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cwrs adolygu yn ystod y flwyddyn ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs Sabothol. Hefyd, mae'r holl staff sydd wedi mynychu cyrsiau Sabothol yn derbyn cymorth rheolaidd oddi wrth y tîm Athrawon Bro yn ystod eu hymweliadau rheolaidd ag ysgolion. Mae trafodaethau rheolaidd yn digwydd â phenaethiaid ysgolion lle mae staff wedi mynychu'r cynllun Sabothol, a chytunir ar dargedau i sicrhau bod pobl sydd eisoes wedi cymryd rhan yn y cynllun yn cael cyfleoedd i barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.</p>	<p>Darparu cymorth ar ôl y cwrs i'r holl staff sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau Sabothol.</p> <p>Cynllunio cymorth yn flynyddol, yn unol â chyllid Grant Gwella Addysg.</p>
-----	---	--	--

Atodiad 1 Data**Deilliant 1 Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y disgyblion a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 2	18.5%	19.0%	19.5%	20.0%	20.5%

Nid yw'r awdurdod yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn nghanran y plant saith mlwydd oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y CSGA hwn.

Deilliant 2 Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y disgyblion a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 9	14.1%	14.5%	14.5%	14.5%	14.5%

Nid yw'r awdurdod yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion Mlwyddyn 9 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y CSGA hwn.

Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith Gyntaf) dair blynedd yn gynharach?

% y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith Gyntaf) – 2012/13	% y disgyblion Blwyddyn 9 a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) – 2015/16	Y gwahaniaeth rhwng y canrannau
17.3% (229 o ddisgyblion)	14.1% (176 o ddisgyblion)	3.2% (53 o ddisgyblion)

Er bod hyn, i bob golwg, yn dangos nad yw nifer fawr o ddisgyblion yn parhau i gael eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf), rhaid nodi bod disgyblion cyfrwng Cymraeg o ardal Ystradgynlais, a mwy a mwy o ddisgyblion o ardal Pontsenni, yn trosglwyddo y tu allan i'r sir i fanteisio ar ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Yn 2012/13, roedd yna 34 o ddisgyblion blwyddyn 6 yn Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr, yn ardal Ystradgynlais. Fe drosglwyddodd 30 o'r disgyblion hyn i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r sir, ond ni adlewyrchir y disgyblion hyn yn ffigurau uchod.

Trosglwyddo effeithiol a dilyniant ieithyddol

i) Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu sefydliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir, a sefydliadau cyfrwng Cymraeg a ariennir nas cynhelir, sy'n trosglwyddo i ysgolion/ffrydiau cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl canlynol yn darparu data a dderbyniwyd gan Mudiad Meithrin ar nifer a chanran y plant oedd yn mynychu Cylchoedd Meithrin ym Mhowys a drosglwyddodd i ysgol neu ffrwd Gymraeg.

Cylch Meithrin	Nifer y disgyblion a drosglwyddodd i ysgol neu ffrwd Gymraeg rhwng Medi 2015 a Gorffennaf 2016	% a drosglwyddodd i ysgol neu ffrwd cyfrwng Cymraeg
Arch yr Enfys (Rhaeadr)	8	50%
Aberhonddu	13	100%
Carno	10	90.91%
Dyffryn Banw	4	100%
Glantwymyn	10	100%
Llanbrynmair	9	100%
Llandrindod	13	76.47%
Llanfair Caereinion	11	64.71%
Llanfyllin	8	88.89%
Llanrhaeadr-ym-Mochnant	1	25%
Llansilin	1	100%
Machynlleth	44	64.71%
Y Drenewydd (Coch)	0	0%
Y Drenewydd (Melyn)	21	87.50%
Penybontfawr	9	100%
Pontrobert	4	80%
Pontsenni	11	40.74%
Y Trallwng	12	80%

- ii) **Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n parhau i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2**

	Cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 2 mewn addysg cyfrwng Cymraeg (CYBLD Ionawr 2016)	Cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 3 mewn addysg cyfrwng Cymraeg (Medi 2016)	% y disgyblion sy'n parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol
Ysgol Babanod Ardwyn / Ysgol Maesydre	10	10	100%
Ysgol Gynradd Llanfair-ym-muallt	14	14	100%
Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion	11	11	100%
Ysgol Gynradd Llanfyllin	9	9	100%
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	9	9	100%
Ysgol Bro Hyddgen	24	23	96%
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy	7	7	100%
Ysgol Gynradd Pontsenni	6	5	83%
Ysgol Carno	6	6	100%
Ysgol Dafydd Llwyd	27	27	100%
Ysgol Dolafon	2	1	50%
Ysgol Dyffryn Banw	4	4	100%
Ysgol Dyffryn Trannon	16	16	100%
Ysgol Glantwymyn	12	12	100%
Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr	30	33	110%
Ysgol Llanbryn-mair	7	7	100%
Ysgol Llanerfyl	4	4	100%
Ysgol Pennant	5	6	120%
Ysgol Pontrobert	3	3	100%
Ysgol Rhiw Bechan	11	11	100%
Ysgol Trefonnen	9	8	89%
Ysgol y Bannau	16	15	94%
Cyfanswm Powys	242	241	99.5%

iii) Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion/ffrydiau cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo i ysgolion/ffrydiau uwchradd cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2

	Cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 6 mewn addysg cyfrwng Cymraeg (CYBLD Ionawr 2016)	Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion/ffrydiau uwchradd cyfrwng Cymraeg (Medi 2016)	% y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion/ffrydiau cyfrwng Cymraeg
Ysgol Babanod Ardwyn / Ysgol Maesydre	3	0	0%
Ysgol Gynradd Llanfair-ym-muallt	20	17	85%
Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion	12	12	100%
Ysgol Gynradd Llanfyllin	5	4	80%
Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant	5	5	100%
Ysgol Bro Hyddgen	19	18	95%
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy	6	6	100%
Ysgol Gynradd Pontsenni	6	4	67%
Ysgol Carno	4	2	50%
Ysgol Dafydd Llwyd	23	23	100%
Ysgol Dolafon	0	N/A	N/A
Ysgol Dyffryn Banw	8	5	63%
Ysgol Dyffryn Trannon	8	7	88%
Ysgol Glantwymyn	7	2	71%
Ysgol Gymraeg Dyffryn y Glowyr	33	23	70%
Ysgol Llanbryn-mair	8	6	75%
Ysgol Llanerfyl	8	6	75%
Ysgol Pennant	10	9	90%
Ysgol Pontrobert	8	8	100%
Ysgol Rhiw Bechan	3	2	66%
Ysgol Trefonnen	12	2	17%
Ysgol y Bannau	20	13	65%
Cyfanswm Powys	228	174	76%

iv) Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4

	Cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 9 mewn addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog (ffigyrau cyfrwng Cymraeg 2015-16)	Cyfanswm nifer y disgyblion blwyddyn 10 mewn addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog (Medi 2016)	% y disgyblion sy'n parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg/ddwyieithog
Ysgol Uwchradd Aberhonddu	4	3	75%
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt	31	30	97%
Ysgol Uwchradd Caereinion	50	49	98%
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	22	21	95%
Ysgol Uwchradd Llanidloes	16	15	94%
Ysgol Bro Hyddgen	36	43	119%

Deilliant 3 Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4 Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y dysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 <u>pellach</u> drwy gyfrwng y Gymraeg	51.85%	52%	52.5%	53%	53.5%

% y dysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 <u>pellach</u> drwy gyfrwng y Gymraeg	85.19%	85.5%	86%	86.5%	87%

Nid yw'r awdurdod yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y CSGA hwn.

Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni – 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg	1.76% (22 disgybl)	1.8%	1.9%	2.0%	2.1%
% y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog	2.16% (27 disgybl)	2.2%	2.3%	2.4%	2.5%

Nid yw'r awdurdod yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion 16-19 oed sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ystod oes y CSGA hwn.

Deilliant 5 Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

5.1 Gwella'r ddarpariaeth a'r safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a sgiliau cyfathrebu	93.8%	94%	94.2%	94.6%	94.8%
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athro mewn Cymraeg	95.6%	96.5%	96.7%	96.8%	97%
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiad athro mewn Cymraeg	94.3%	94.5%	95%	95.5%	96%
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A* - C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	63.7% (Damcaniaethol)	65%	68%	70%	72%

5.2 Gwella'r ddarpariaeth a'r safonau mewn Cymraeg Ail Iaith

	Y Sefyllfa Sydd Ohoni 2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith	81.8%	82%	82.5%	83%	83.5%
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith	86.6%	87%	87.3%	87.6%	88%
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A* - C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn	71.7% (Damcaniaethol)				
% y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A* - C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr	58.1% (Damcaniaethol)				

Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg ar lefel uwch

Nifer y ceisiadau TGAU iaith Gyntaf yn 2014	Nifer y ceisiadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf yn 2016
150	15

Nifer y ceisiadau TGAU Cymraeg Ail iaith yn 2014	Nifer y ceisiadau Lefel A Cymraeg Ail iaith yn 2016
Cwrs Llawn – 575 Cwrs Byr – 518	19

Deilliant 6 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dim data

Deilliant 7 Cynllunio'r gweithlu a Datblygu Proffesiynol Parhaus

Dim data